

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Teitl yr aseiniad yma yw: 'Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.' Pwrpas yr aseiniad yw astudio a gwerthuso achos beirniadol a arsylwyd yn yr ysgol, er mwyn deall y camau addysgu o fewn yr achos ac yna gwerthuso'r camau gweithredol nesaf. Mae gwerthuso achos critigol yn ffurf dda o ddeall sut mae addysgu yn digwydd yn y dosbarth gan ei fod yn digwydd mewn awyrgylch naturiol ac felly mae modd edrych yn gritigol ar y dysgu a'r addysgu sy'n digwydd mewn dosbarth. Trwy ddefnyddio achos critigol fel y canolbwynt o'r gwerthusiad mae modd deall sut mae'r dysgu yn digwydd a deall sut mae modd defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r achos er mwyn gwella'r addysgu a dysgu yn y dyfodol.

Bydd yr aseiniad yma edrych ar y fethatoleg o arsylwi er mwyn gwerthuso'r dull orau o arsylwi'r fath yma o achos. Nesaf bydd yn canolbwyntio ar sut mae'r achos critigol yn cysylltu â phedwar pwrpas Donaldson. Bydd y rhan nesaf, yr adolygiad llenyddiaeth, yn archwilio i mewn i'r theorïau dysgu a sut mae modd defnyddio'r rhain er mwyn gwerthuso'r achos yn gritigol. Y rhan olaf yw'r gwerthusiad o'r achos a syniadau a'r camau weithredu nesaf.

Arsylwi

Mae'r ysgol sydd yn cael ei thrafod o fewn yr aseiniad yma yn ysgol ganol 3 i 19 gyda bron pob disgybl yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae 639 o ddisgyblion o fewn yr ysgol ac mae tua 8% yn gymwys i ginio ysgol am ddim, canran is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ôl yr adroddiad Estyn 2017 dim ond ychydig bach o'r disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig (Estyn, 2017). Mae'r achos critigol o fewn yr aseiniad yma yn ymwneud a dosbarth cymysg blwyddyn 7. Mae'n ddosbarth gallu cymysg heb unrhyw ddisgybl gydag anghenion addysgol arbennig. Yn ôl Wales Online mae'r ysgol wedi lleoli o fewn y system wyrdd sy'n golygu mae'n ysgol effeithiol sy'n cael ei rhedeg yn dda iawn, ac mae'r arweinyddiaeth yn gryf yna. Hefyd mae'n glir am sut i wella a sut i gefnogi ysgolion eraill.

Methodoleg

Er mwyn arsylwi achos critigol yn effeithiol mae'n bwysig i ddeall y gwahanol fathau o arsylwi a beth yw achos critigol. Yn ôl Kumar mae dau fath o arsylwi sylfaenol, arsylwi cyfrannog a di-gyfrannog. (Kumar, 2019). Mae arsylwi cyfrannog yn golygu cymryd rhan o fewn y gweithgareddau dosbarth ac mae'r disgyblion yn gwybod ei fod yn cael ei arsylwi. Yn wahanol, mae arsylwi di-gyfrannog yn golygu nad yw'r person sy'n arsylwi yn cyfrannu i weithgareddau'r dosbarth. Maen nhw'n gwyllo a gwrandao ar y gweithgareddau ac yn casglu gwybodaeth. Yn ôl Kumar mae rhai problemau yn gallu codi wrth ddefnyddio'r fath yma o arsylwi yn enwedig y Hawthorn effect, dyma pan mae ymddygiad y dosbarth yn newid oherwydd ei fod yn cael ei arsylwi. (Kumar, 2019). Defnyddiais i arsylwi di-gyfrannog ar gyfer yr astudiaeth yma oherwydd er mwyn astudio'r digwyddiad critigol yn gyfan roedd rhaid gallu astudio pob agwedd o'r dysgu, yn cynnwys amgylchedd y dosbarth, y disgyblion a'r athro.

Yn ôl y ddogfen arsylwi ar blant, mae gwahanol ffurf o arsylwi, er enghraifft arsylwi ar blentyn penodol, arsylwi am gyfnod penodol o amser, arsylwi am gynnydd datblygiadol neu arsylwi ar rywbeth sy'n digwydd mewn gwers. (Llywodraeth Cymru, 2008). Er bod y mathau yma o arsylwi yn bwysig wrth astudio'r achos critigol nid oedd modd i mi ddefnyddio rhai o'r strategaethau arsylwi yma oherwydd y terfynau amser oedd gen i. Roedd ond modd arsylwi am amser byr felly nid oedd modd arsylwi am gynnydd datblygiadol. Hefyd nid oedd modd arsylwi ar blentyn penodol gan fod yr achos yn ymwneud â'r dosbarth yn ei gyfanrwydd.

Wrth arsylwi mae'n bwysig dewis ffordd o gasglu'r wybodaeth wrth ystyried y manteision ac anfanteision. Yn ôl Spradley (Cohen, Manion a Morrison, 2007) un o'r ffyrdd orau yw casglu nodiadau, ehangu'r nodiadau ar ôl y cyfnod arsylwi er mwyn ystyried yn bellach, cadw nodiadau siwrnal er mwyn cofnodi syniadau yn ystod y broses a chadw cofnod rhedegog o'r dadansoddiad. Defnyddiais i'r fath yma o gasglu gwybodaeth oherwydd dyma'r ffordd orau i gofnodi'r wybodaeth wrth arsylwi'r achos critigol, mae'r cofnodion wedi atodi i'r gwaith yma. Yn ôl David Hopkins mae'r ffyrdd yma o gofnodi gwybodaeth yn syml ac yn bersonol ac yn galluogi nodiadau parhaol trwy'r cyfnod o arsylwi. Un o'r anfanteision o'r ffyrdd yma mae'n oddrychol ac felly ond un ystyried safbwynt yr arsylwr. (Hopkins, 2008)

Wrth ddewis ffurf o gadw cofnodion edrychais ar wahanol fathau o gofnodi yn cynnwys holiadur a sosiogram. Yn ôl Hopkins mae manteision ac anfanteision i'r mathau yma o gofnodi, er enghraifft mae holiadur ond yn fantais oes oedd modd ateb cwestiynau penodol ac felly ddim yn berthnasol i'r fath yma o arsylwi. Hefyd mae sosiogram ond yn fantais os oes rheswm i edrych ar y perthnasoedd cymdeithasol o fewn dosbarth. (Hopkins, 2008)

O fewn y cyd-destun o achos critigol mae David Tripp yn crynhoi'r fath yma o achos fel, "a critical incident is an interpretation of the significance of an event. To take something

as a critical incident is a value judgement we make, and the basis of that judgement is the significance we attach to the meaning of the incident.” (Tripp, 2012,p.8). Wrth ystyried yr ystyr yma mae'r achos critigol yn cael ystyried fel unrhyw beth sy'n gallu cael ei dadansoddi ac ystyried yn arwyddocaol. O fewn y cyd-destun yma rhywbeth sy'n gallu cael ei astudio'n gritigol o fewn addysg.

Ar ôl cyfnod o arsylwi dewisais achos critigol oedd yn ddiddorol ac yn gysylltiedig â sut mae addysg yn newid oherwydd gwaith Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus' a'r pedwar pwrpas. Yn ôl y ddogfen yma “Y bwriad yw y bydd pob dysgwr yn symud ar hyd yr un continwwm dysgu ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad, a hynny o 3 i 16 oed.” (Llywodraeth Cymru, 2019, p.9). Mae'r newidiadau yma o fewn addysg wedi dechrau, wrth arsylwi roedd y continwwm dysgu yma yn amlwg yn cael ei adlewyrchu ar hyd yr ysgol. Mae'r achos critigol dwi am drafod yn ymwneud yn benodol â dau o'r pedwar pwrpas.

Mae'r achos dwi am drafod yn ymwneud a rhoi'r dysgu yn nwylo'r disgyblion. Dechreuodd yr achos gyda'r athro yn modelu llythyr i'r dosbarth blwyddyn 7, gan ofyn i'r disgyblion cwestiynau am sut ddylai'r llythyr edrych. Nesaf rhoddodd yr athro dewis o dair tasg i'r disgyblion wedi labelu'n aur, arian ac efydd. Roedd yr efydd yn fwyaf haws ond o hyd yn anelu at waith lefel 4. Roedd yr arian yn fwy heriol ac yn arwain at tua lefel 5, ac roedd yr aur yn fwyaf heriol ac yn arwain at lefel 6. Wnaeth yr athro hefyd dosbarthu taflenni sgaffaldio a oedd yn cyd-fynd gyda'r meini prawf ar gyfer lefel 6. Roedd gan y disgyblion dewis o ba dasg i wneud ac nid oedd yr athro yn dethol pa dasg dylai'r disgyblion wneud. Roedd gan bob disgybl cyfle hafal i ddewis faint o her oeddent eisiau ymgymryd.

Wrth edrych ar y pedwar diben mae'r achos critigol yma yn creu cyfleoedd i'r disgyblion datblygu o fewn addysg ac fel dinasyddion. Y diben cyntaf sy'n gysylltiedig â'r achos yma yw'r nod i alluogi, "dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes" (Llywodraeth Cymru, 2019,p. 6). Mae'r fath o addysgu sy'n ymddangos o fewn yr achos critigol yn galluogi dysgwyr uchelgeisiol gan ei fod yn annog y disgyblion i herio'i hunain heb bwyso o'r athro. Hefyd trwy roi dewis o heriau i'r disgyblion mae'n rhoi'r dysgu yn nwylo'r disgyblion ac felly yn annog nhw i ddatblygu cymhelliant i ddysgu bydd yn aros gyda nhw am gydol eu hoes. Yr ail ddiben sy'n gysylltiedig â'r achos yma yw'r nod i alluogi, "unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas." (Llywodraeth Cymru, 2019, p.6). Mae'r diben yma yn berthnasol i'r achos critigol yma gan fod y disgyblion yn rheoli dysgu eu hun ac felly yn gallu magu hyder trwy herio'i hunain.

Wrth astudio'r achos yma wrth feddwl am bedwar diben Donaldson, mae'r dysgu sy'n cael ei phortreadu yn yr achos yma yn dangos sut mae addysg yn newid er mwyn creu dinasyddion cyflawn a llesol. Mae'r nodiadau arsylwi am yr achos yma wedi atodi'r gwaith yma fel atodiad 1.

Adolygiad Llenyddiaeth

Er mwyn ystyried yr achos critigol yn effeithiol mae'n bwysig deall cyd-destun y theorïau dysgu sy'n arwain at y fath yma o ddysgu. Yn gyntaf byddaf yn sôn am ddamcaniaeth adeiladaeth yn cynnwys syniadau Lev Vygotsky a Brian Belland. Nesaf byddaf yn ystyried y damcaniaeth Carol Dweck 'Growth Mindset' ac yna byddaf yn ystyried dogfennau proffesiynol am ddysgu yn cynnwys gwaith Rosenshine a'r sefydliad siartredig dysgu.

Y maes dysgu cyntaf sy'n berthnasol i'r achos yma yw gwaith Lev Vygotsky a'r theori adeiladaeth sy'n ymwneud a disgyblion yn dysgu trwy ddarganfod a phrofiad. Yn ôl y theori yma mae disgyblion yn gweithredu fel arbenigwyr sy'n ymchwilio, darganfod ac adeiladu o fewn y dosbarth. mae'r fath yma o ddysgu yn galluogi disgyblion i ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd tu allan i'r ysgol. (Krahenbul, 2016). Mae'r fath yma o ddysgu yn amlwg o fewn yr achos critigol gan fod yr athro yn gadael i'r disgyblion darganfod dysgu eu hun. Mae Vygotsky hefyd yn sôn am y rhanbarth datblygiad procsimol (ZPD). Yn ôl Vygotsky mae ZPD yn golygu:

“the distance between the actual developmental level as determined by independent problem solving and the level of potential development as determined through problem solving under adult guidance or in collaboration with more capable peers.”
(Vygotsky, 1978, p.86)

Mae'r theori yma yn awgrymu bod gan bob disgybl y gallu i wella'i dysgu trwy gael cymorth wrth berson sydd yn barod yn cyrraedd y lefel o allu mae'r disgybl yn anelu at. Mae'r syniad yma yn ddiddorol gan mae Vygotsky yn awgrymu taw athro neu ddisgybl sy'n gallu helpu'r disgyblion cyrraedd ei photensial. Wrth feddwl am y rhanbarth datblygiad procsimol mae arbenigwyr yn awgrymu fod scaffolding yn ddull defnyddiol er mwyn helpu disgyblion cyrraedd ei photensial.

Yn ôl Brian Belland (2017) rôl sgaffaldio yw llenwi'r bwlch rhwng gallu'r disgybl a faint o wybodaeth maent yn gwybod, er mwyn galluogi nhw i gyflawni tasgau byddai fel arfer tu hwnt i'w gallu. Bwriad defnyddio sgaffaldio yw galluogi'r disgybl i wneud cynnydd trwy raddio'r sgaffald ac yn y pendraw heb y sgaffald o gwbl. Ond er mwyn defnyddio sgaffaldio yn effeithiol mae rhaid i'r athro gwybod gallu pob disgybl yn unigol er mwyn galluogi nhw i greu sgaffald sy'n berthnasol i allu'r disgybl a ble maent eisiau iddynt gyrraedd. Mae Belland yn awgrymu dylai athrawon defnyddio asesu dynamig er mwyn darganfod gallu pob disgybl, er mwyn creu sgaffald personol i bob disgybl. Mae asesu dynamig yn golygu defnyddio dulliau fel asesu ar gyfer dysgu er mwyn asesu gallu'r disgyblion yn gyson trwy gydol ei gwersi. Ond nid yw creu sgaffald personol i bob disgybl yn realistig oherwydd yn ôl Belland er mwyn cyflawni hyn yn gywir byddai rhaid i'r athro addasu'r sgaffald i bob disgybl trwy

weithio un ar un, er mwyn darganfod ei gallu a faint o gymorth sydd angen arnyn nhw er mwyn cyrraedd ei lefel potensial. (Belland, 2017)

Mae'r fath yma o ddysgu yn amgylchynu'r theori adeiladaeth ond mae theori Jean Piaget yn awgrymu fod disgyblion yn gyfranogwyr gweithredol sy'n dysgu trwy ryngweithio a chreu cysylltiadau rhwng profiadau a'r wybodaeth maent yn gwybod yn barod. Mae'r theori yma yn awgrymu fod disgyblion yn dysgu trwy ddarganfod gwybodaeth yn annibynnol trwy wneud a chysylltu'r wybodaeth i bethau maent yn gwybod yn barod. (Piaget, 1995). Yn ôl Piaget nid wrth gael eu haddysgu gan athro mae plant yn dysgu:

“It is in spite of adult authority, and not because of it, that the infant learns. Hence it is to the extent that the intelligent teacher knows when to step down...” (Piaget, 1995, p.204)

Wrth feddwl am y fath yma o addysgu mae theori Piaget yn gwbl wahanol i syniad Vygotsky o'r ZPD a sgaffaldio. Mae Piaget yn awgrymu gadael i ddisgyblion dysgu trwy wneud a darganfod gwybodaeth ar gyfer eu hun tra bod Vygotsky yn awgrymu mae disgyblion yn dysgu trwy gydweithio gydag eraill a trwy ddefnyddio sgaffaldio i gefnogi'r dysgu.

Maes arall o ddysgu sy'n ddiddorol wrth edrych ar yr achos critigol yma yw gwaith Carol Dweck ar feddylfryd twf (Dweck 2012). Yn ôl Dweck mae dau fath o feddylfryd, sefydlog a thwf. Mae person efo meddylfryd sefydlog yn gweld gallu fel rhywbeth statig, nid oes modd cynyddu ei gallu. Ond mae person efo meddylfryd twf yn gweld gallu fel rhywbeth sy'n gallu datblygu. Mae Dweck yn awgrymu dylai pob athro mabwysiadu meddylfryd twf er mwyn annog ei ddisgyblion i wneud yr un peth.

Yn ôl Dweck (2012) nid canmol disgyblion am eu gwaith yw'r ffyrdd orau o annog disgyblion i wneud cynnydd. Yn ei le dylent ganmol ei ymdrechion wrth geisio gwneud cynnydd trwy ymarfer, astudio, dyfalwch a'r strategaethau maent yn defnyddio. Pwrpas y fath yma dysgu yw cau'r bwch rhwng beth nad yw ddisgyblion yn gwybod a beth maent eisiau gwybod trwy newid eu meddylfryd o un sefydlog i feddylfryd twf.

Yn ôl arbenigwyr eraill er mwyn gallu sefydlu meddylfryd twf mae angen cymhelliant cynhenid, mae hyn yn golygu datblygu'r awydd i ddysgu'n fewnol a'r awydd i wneud cynnydd o fewn addysg. Trwy ddatblygu'r cymhelliant yma mae'n annog disgyblion i wella'i hunain a datblygu meddylfryd twf. (Ng, 2018). Yn ôl Dweck mae gan ddisgyblion yr awydd i weithio yn erbyn eu hathrawon, mae hi'n dweud; “when students understand that school is for them – a way for them to grow their minds – they do not insist on sabotaging themselves.” (Dweck, 2012, p.201). Felly os mae disgyblion yn gallu datblygu'r cymhelliant i ddysgu yn annibynnol maent yn dod yn ymwybodol eu bod yn addysgu er mwyn gwella'i hunain.

Er bod y syniad o'r meddylfryd twf yn ddiddorol ac yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion erbyn hyn, mae ymchwil yn bodoli sy'n dweud nid yw'r syniad yma yn gwbl sefydledig. Yn ôl yr 'Education Endowment Foundation' a wnaeth cyflawni prosiect ar yr

effaith o'r meddylfryd twf, er oedd rhywfaint o gynnydd wrth ddefnyddio strategaethau meddylfryd twf ar grwpiau o ddisgyblion, nid oedd unrhyw gynnydd arwyddocaol i awgrymu ei fod yn strategaeth sefydlog i ddefnyddio mewn addysg. (Education Endowment Foundation, 2018).

Y maes olaf o ymchwiliad o fewn yr adolygiad llenyddiaeth yma yw'r agwedd broffesiynol o addysgu. Mae gwahanol sefydliadau ac arbenigwyr ar agweddau o addysgu wedi cyhoeddi gwaith ar ymarferion addysgu da. Y cyntaf sy'n berthnasol i'r achos critigol yma yw'r 'Impact journal of the chartered college of teaching' (2019). Mae'r adroddiad yma yn edrych ar waith Coe, Higgins a Elliot ar y gwahanol ddulliau dysgu a pa rhai sy'n effeithiol er mwyn addysgu. Yn ôl yr adroddiad yma un o'r ffyrdd fwyaf cadarnhaol gyda thystiolaeth o wellhad o fewn y dosbarth yw ansawdd y cyfarwyddiad. Mae hyn yn cynnwys cwestiynu ac asesu effeithiol, modelu a darparu sgaffaldiau. Mae hyn yn gydfyd gyda syniadau Vygotsky a Ballard ar sut mae lleihau'r bwlch rhwng beth nad yw'r dysgwyr yn gwybod a beth sydd angen nhw i wybod. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am adael i'r disgyblion darganfod gwybodaeth dros eu hunain, mae hyn yn gydfyd gyda syniad Piaget dylai disgyblion dysgu trwy ddarganfod. Ond yn ôl yr adroddiad yma does dim tystiolaeth gadarnhaol i gefnogi bod y fath yma o ddysgu yn effeithiol. (Impact journal of the chartered college of teaching, 2019).

Yr ail ddogfen berthnasol yw 'Rosenshine's principles of instruction' (2012), sy'n canolbwyntio ar 10 elfen o addysgu da. Mae'r wybodaeth o fewn y gwaith yma yn dod o dri gwahanol ffynhonnell, ac er hynny mae'r wybodaeth yn gyd-fynd ac felly yn gallu cael ei ystyried yn ddilys. Mae'r ddwy elfen berthnasol yn ymwneud a modelu a sgaffaldio, dau agwedd sydd yn barod wedi cael ei thrafod fel ffyrdd da o ddysgu o fewn yr adolygiad llenyddiaeth yma. Yn ôl y ddogfen (Rosenshine, 2012) mae modelu a gweithio trwy enghreifftiau o flaen disgyblion yn rhoi cyfle i'r disgyblion deall pob cam, felly mae hyn yn lleihau'r baich a rhoi llwyth gwybyddol. Yr ail elfen yw sgaffaldio, mae darparu sgaffaldiau ar gyfer tasgau anodd yn helpu'r dysgwyr lleihau'r bwlch rhwng beth nad ydynt yn gwybod a beth sydd angen gwybod. Mae hyn yn cyd-fynd gyda syniadau Belland am sgaffaldio a'r canlyniadau cadarnhaol. (Rosenshine, 2012).

Y ddogfen olaf yw gwaith Neil Mercer Developing Dialogue (2012), sy'n edrych ar sut mae plant yn defnyddio iaith er mwyn dysgu. O fewn y cyd-destun o'r achos critigol yma y rhan sy'n ddiddorol yw'r elfen amdano arweiniad oedolyn. Mae Mercer yn awgrymu dylai athrawon 'establish a referential perspective' (Mercer, 2002, p.4), mae hyn yn golygu pan mae oedolyn yn ymateb i ddiffyg gwybodaeth plentyn trwy gyfeirio at wybodaeth maent yn gwybod yn barod. Mae hyn yn cyd-fynd gyda syniadau Vygotsky ar ZPD, lle mae'r oedolyn yn cau'r bwlch rhwng y wybodaeth nad yw'r plentyn yn gwybod a beth maent eisiau gwybod trwy gysylltu'r ddau. (Mercer, 2012)

Wrth edrych ar y meysydd yma o wybodaeth mae'n debyg bod y dogfennau sydd wedi cyhoeddi yn ddiweddar yn cyd-fynd gyda syniadau a theorïau dysgu sefydledig.

Adfyfyrio/Gwerthuso a Chamau Nesaf

Er mwyn dysgu wrth adfyfyrio mae'n bwysig i feddwl yn ddwfn am y dysgu oedd yn bresennol yn yr achos critigol. yn ôl adroddiad (Impact 2019) ar adfyfyrio, dylai athrawon gweithredu fel dysgwyr wrth adfyfyrio er mwyn galluogi nhw i feddwl yn gritigol am eu rhagdybiaethau. Trwy weithio i ddarganfod ffurf o ddatblygu, bydd athrawon yn ymateb yn well i gyfleodd i ddysgu. Mae adfyfyrio hefyd yn ffurf dda o wneud yn sicr eich bod yn dilyn y safonau proffesiynol yn ôl Llywodraeth Cymru. Un o'r safonau pwysig yn ôl canllawiau'r llywodraeth yw'r 'safon arloesi... datblygu addysgeg', mae'r canllaw yn dweud:

“Mae'r athro yn flaengar gan ddatblygu technegau a dulliau ei reolir ac a fesurir i wella deilliannau addysgeg.” (Llywodraeth Cymru, 2018)

Trwy adfyfyrio mae modd i athrawon defnyddio'r safonau yma er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu a defnyddio dulliau addas er mwyn ddatblygu addysgeg. Safon broffesiynol arall diddorol yw'r “safon addysgeg effeithiol... Mae addysgeg a dysgu'n holl bwysig.” (Llywodraeth Cymru, 2018). Wrth adfyfyrio dylai athrawon sicrhau eu bod yn cynnal addysgeg dda ond hefyd yn parhau i ddysgu er mwyn gwella ei hun, a safon eu haddysgeg.

Er mwyn deall yr achos critigol a sut i weithredu yn y dyfodol mae'n bwysig i adfyfyrio ar yr achos a sut mae modd dysgu o'r digwyddiad. Wrth adfyfyrio ar yr achos critigol defnyddiais y daflen BWA (model beirniad wedi adfyfyrio) er mwyn nodi fy syniadau, gweler atodiad 2. Defnyddiais y daflen yma oherwydd roedd modd i mi feddwl yn gritigol wrth arsylwi'r achos ac yn feddwl yn ddwfn am y rhannau gwahanol o'r achos wrth ddefnyddio'r cwestiynau ar y daflen BWA.

Wrth adfyfyrio nodais wnaeth yr athro defnyddio sawl elfen addysgiadol o fewn yr heriau oedd yn gwahaniaethu o ran gallu. Wrth feddwl am y theorïau dysgu edrychais arno o fewn fy adolygiad llenyddiaeth roedd yr agweddau dysgu arsylwais o fewn yr achos critigol yn rhai o'r agweddau fwyaf cadarnhaol o addysgu. Wrth sgaffaldio roedd yr athro yn sicrhau bod gan bob disgybl yr un fantais wrth ddewis a chyflawni'r dasg. Hefyd wrth fodelu'r llythyr cyn gofyn i'r disgyblion creu llythyr eu hun, wnaeth yr athro sicrhau bod pob disgybl yn deall y dasg ac yn cychwyn gyda chefnogaeth gyfartal cyn defnyddio sgaffaldio i gau'r bwlch rhwng y wybodaeth roeddent yn barod yn gwybod a'r lefel oedd angen cyrraedd.

Wrth werthuso'r achos gellid cadw'r system o heriau aur, arian ac efydd gan eu bod yn caniatáu gwahaniaethu a hefyd yn rhoi'r dewis o her i'r disgyblion ac felly yn galluogi nhw i ddewis her ei hunain. Gellid hefyd cadw'r sgaffaldio er mwyn cefnogi'r disgyblion sydd angen fwy o gymorth.

Wrth ystyried y camau nesaf gellid defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn tracio cynnydd y disgyblion ac er mwyn adnabod pa ddisgyblion sydd angen fwy o gymorth. Trwy ddefnyddio dulliau asesu ffurfiannol mae modd asesu'r disgyblion yn gyson er mwyn darganfod sut mae modd iddynt wneud cynnydd a sut mae modd cefnogi'r cynnydd yma. Ffuriau o asesu ar gyfer dysgu gellir defnyddio yw goleuadau traffig, er mwyn gadael i'r disgyblion dangos os maen nhw'n teimlo'n hapus, ansicr neu yn anhapus am y gwaith. Mae hunanasesu hefyd yn ddull da o adael i'r disgyblion darganfod sut i wneud cynnydd yn annibynnol, yn ôl Dylan William;

“Assessment is to be seen as a moment of learning, and students have to be active in their own assessment, and to picture their own learning in the light of an understanding of what it means to get better.” (Black & William, 1998, p.30)

Er mwyn i'r disgyblion gallu arwain dysgu eu hun mae rhaid iddynt ddeall sut a pham mae modd gwneud cynnydd. Wrth iddynt ddeall yr hyn sydd angen gwneud mae'n cau'r bwlch rhwng beth nad ydynt yn gwybod a beth sydd angen wybod. Cam arall gellir defnyddio er mwyn dysgu'r plant yw defnyddio sgaffaldio gwanhau sy'n golygu lleihau'r sgaffald wrth i'r disgyblion gwneud cynnydd er mwyn galluogi nhw i gyflawni'r tasgau yn annibynnol yn y pendraw.

Felly wrth adfyfrio mae angen feddwl yn ddwfn am beth mae'r disgyblion wedi dysgu a bydd sydd angen iddynt ddysgu, ac yna defnyddio strategaethau dysgu er mwyn cau'r bwlch rhwng y ddau beth yma a sicrhau bod modd i'r disgyblion gwneud cynnydd gyda'r lleiafrif o gymorth yn y pendraw er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn ddysgwyr annibynnol.

Casgliad

I ddiwedd, mae'r asesiad yma wedi edrych ar y gwahanol fethodoleg i ddeall achosion critigol a sut mae modd dysgu a gwella addysgu trwy ddefnyddio'r wybodaeth o'r achosion critigol. Mae'r theorïau dysgu a thrafodir o fewn yr aseiniad yma hefyd wedi cyfrannu at y deallusrwydd am sut mae disgyblion yn dysgu a sut mae modd gwella'r addysgu trwy astudio achosion critigol.

Wrth edrych ar y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth mae'r gwerthusiad o'r achos critigol yn gallu cefnogi datblygiad personol a proffesiynol o'r safonau yma. Mae 5 safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru 2019;

1. Addysgeg
2. Arweinyddiaeth
3. Dysgu Proffesiynol

4. Arloesi
5. Cydweithredu

(Llywodraeth Cymru, 2019)

Wrth adfyfrio ar yr achos critigol a'r camau gweithredu nesaf y ddwy safon fwyaf perthnasol yw'r safonau Addysgeg ac Arloesi. Trwy ddefnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu a deall sut mae disgyblion yn dysgu yn ôl y theorïau dysgu a thrafodir, mae modd ymateb i'r safonau yma. Er mwyn ymateb i'r safon Addysgeg yn ôl y canllawiau rhaid i'r athro:

“Sicrhau'n gyson y deilliannau gorau i ddysgwyr drwy fireinio dulliau addysgu'n raddol, dylanwadu ar ddysgwyr a hybu dysgu.” (Llywodraeth Cymru, 2019)

Mae modd gweithredu i'r safon yma trwy sicrhau fod athrawon yn parhau i ddysgu a sicrhau eu bod yn defnyddio dulliau gwahanol o addysgu fel trafodir yn yr aseiniad yma er mwyn sicrhau bod dysgu'n agored i bawb. Hefyd er mwyn cyrraedd y safon Arloesi yn ôl y canllawiau dylai athro: “Bod yn flaengar gan ddatblygu technegau a dulliau a reolir ac a fesurir i wella deilliannau addysgeg.” (Llywodraeth Cymru, 2019). Eto mae modd gweithredu yn ôl y safon yma trwy barhau i ddysgu fel athro a sicrhau bod y dulliau dysgu yn berthnasol i fywydau'r disgyblion.

Felly i orffen wrth werthuso'r achos critigol a defnyddio'r theorïau dysgu er mwyn gweithredu ar y canlyniadau, mae modd deall sut mae plant yn dysgu ac felly yn gallu defnyddio dulliau dysgu ac asesiadau sy'n berthnasol i'r dysgwyr.

Rhestr Cyfeirnodau

Belland, B. (2017). *Instructional Scaffolding in STEM Education*. Cham: Springer, pp.17-24.

Black, P. and Wiliam, D. (1998). Assessment and Classroom Learning. *Assessment in Education: Principles, Policy & Practice*, 5(1), pp.7-74.

Coe, R., Higgins, S. and Major, L. (2019). *What makes great teaching?* | *impact.chartered.college*. [online] *impact.chartered.college*. Available at: <https://impact.chartered.college/article/coe-et-al-what-makes-great-teaching/> [Accessed 20 Oct. 2019].

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2007). *Research methods in education*. 6th ed. London and New York: Routledge, pp.396-413.

Dweck, C. (2012). *Mindset*. London: Robinson, pp.2-201.

Education Endowment Foundation. (2019). [online] Available at: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/projects-and-evaluation/projects/changing-mindsets/> [Accessed 20 Oct. 2019].

Hopkins, D. (2008). *A teacher's guide to classroom research*. Maidenhead, England: Open University Press, p.127.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf> [Accessed 16 Oct. 2019].

<https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/6f/9e/e5/67/6d66437cbcae802e261ebaa7/arsylwi-ar-blant.pdf>

[https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/\[REDACTED\].pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/[REDACTED].pdf)

[https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/\[REDACTED\]-7540655](https://www.walesonline.co.uk/news/local-news/[REDACTED]-7540655)

JACKSON, G. (2019). *What is reflective practice?* | *impact.chartered.college*. [online] *impact.chartered.college*. Available at: <https://impact.chartered.college/article/what-is-reflective-practice/> [Accessed 23 Oct. 2019].

Krahenbul, K. (2016). Student-centred Education and Constructivism: challenges, concerns, and clarity for teachers. *Middle Tennessee State University*, 89(3), pp.97-105.

Kumar, R. (2019). *Research methodology*. Los Angeles: SAGE. pp.217-218.

Llywodraeth Cymru (2018). *Cyflwyniad i safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweiniaeth*. [online] Llywodraeth Cymru. Available at: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/93/0e/42/c4/445a4e54a43f8b0847afa059/cyflwyniad-ir-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-taflen.pdf> [Accessed 23 Oct. 2019].

Llywodraeth Cymru (2019). *Dyfodol Llwyddianus*. Llyw.Cymru, pp.1-10. Available at:

Llywodraeth Cymru (2019). *Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. [online] Llywodraeth Cymru. Available at: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/9c/06/b9/58/b1ca47568dafc2dbaea3942b/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf> [Accessed 23 Oct. 2019].

Mercer, N. (2002). Developing Dialogues. In: G. Wells and G. Claxton, ed., *Learning for life in the 21st Century*. Oxford: Blackwell, pp.1-22.

Ng, B. (2018). The Neuroscience of Growth Mindset and Intrinsic Motivation. *Brain Sciences*, 8(2), p.20.

Piaget, L., (1995). In I. Smith, *Sociological studies* (2nd ed.). (Smith, et al., Trans.) London, New York: Routledge, p.204.

Teachertoolkit.co.uk. (2019). *Rosenshine's Principles of Instruction*. [online] Available at: <https://www.teachertoolkit.co.uk/wp-content/uploads/2018/10/Principles-of-Instruction-Rosenshine.pdf> [Accessed 20 Oct. 2019].

Tripp, D. (2012). *Critical incidents in teaching*. London: Routledge, p.8.

Vygotsky, L. and Cole, M. (1978). *Mind in society*. Cambridge, Mass.: Harvard University Press, p.86.

Atodiad 1**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/19
Manylion y wers: Gwers yn ymwneud a sut i ddefnyddio gwresogydd bunsen. Yn gyntaf wnaeth yr athro ail-ddangos i'r dosbarth sut i ddefnyddio'r gwresogydd bunsen gan gofyn cwestiynau i'r ddisbyblion. Yna wnaeth yr athro rhoi tasg i'r disgyblion i ysgrifennu llythyr yn amlinelli sut i ddefnyddio gwresogydd bunsen. Roedd gan y disgyblion dewis o tri tasg, Aur, Arian neu Efydd.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) Mae'r plant yn canolbwyntio ac yn mwynhau'r tasg gan fod gan nhw'r dewis pa tasg hoffon nhw wneud. Mae gan y ddisbyblion criteria er mwyn cwblhau'r tasg. Hefyd er mwyn ymestyn y gwaith mae gan bob desg taflen sgaffoldio er mwyn helpu nhw.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu? Oes, pwrpas y wers yw i greu llythyr yn amlinelli sut i ddefnyddio gwresogydd bunsen.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Ydyn, wrth siariad efo'r disgyblion mae nhw'n glir am beth i wneud, a sut i gyrraedd nod y wers.
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) Gan fod gan y ddisgyblion dewis o tri tasg, mae nhw'n gallu dewis faint o her maent eisiau.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? Mae'r athro yn cylchu'r dosbarth er mwyn asesu gwaith y dosbarth, yna mae'r plant yn asesu gwaith ei gilydd gyda'r system, dau seren a dymuniad.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Mae rhoi dewis i'r plant faint o her maent eisiau yn gallu effeithio ar faint o waith maent yn gwneud.

Atodiad 2

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Heriau Aur, Arian ac Efydd

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Roedd gweld yr athro yn rhoi dewis o heriau i'r disgyblion yn diddorol gan fod y ddisgyblion yn ymateb yn dda i'r dewis. Wrth rhoi dewis i'r disgyblion roedd yr athro yn rhoi'r dysgu yn dwylo'r disgyblion.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Wnaeth yr athro defnyddio sawl elfen addysgiadol o fewn y gwers, er enghraifft modelu, sgaffaldio a heriau. Wrth rhoi dewis o heriau i'r disgyblion wnaeth yr athro hefyd modelu llythyr i'r dosbarth er mwyn sgaffaldio'r dysgu ac i sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd y lefel sylfaenol o'r tasg. Hefyd wnaeth yr athro dosbarthu taflenni berfau gorchymynol i pob desg er mwyn i'r disgyblion ymestyn ei gwaith.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Gellid cadw'r system o heriau Aur, Arian ac Efydd yn y dyfodol gan ei fod yn rhoi dewis i'r ddisgyblion. Hefyd gellid cadw'r sgaffaldio er mwyn cefnogi'r disgyblion sydd angen fwy o gymorth.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Y cam nesaf yn fy mharn i byddai sicrhau fod pob disgybl yn cael ei herio trwy annog y plant i ymestyn ei gwaith ac i ymateb i'r her. Hefyd wrth cylchu'r dosbarth byddai modd cadw golwg o lle mae'r disgyblion yn cael trafferth.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 3**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 25/09/19

Manylion y wers:

Gwers amdano Hedd Wyn a'r rhyfel byd cyntaf.
Gwaith yn arwain at ysgrifennu ymson.

Diwylliant ar lawr dysgu

(Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Ydyn, maen't yn gwneud gwaith pâr ac mae'r athro yn gofyn cwestiynau agored er mwyn annog atebion o'r ddisgyblion.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?)

Oes, y nod yw i ysgrifennu ymson ar ol deal beth sydd angen o fewn ymson.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Ydyn, mae'r disgyblion yn ateb cwestiynau ac yn ymateb i'r athro.

Mynediad a her

(Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?)

Ydyn, mae'r disgyblion yn estynnu ei atebion ac yn ymateb i cwestiynau heriol.

Asesu

Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?

Mae'r athro yn gofyn cwestiynnau ac yn gofyn am enghreifftiau.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Rhai adegau roedd y plant yn sibrdw ac yn siariad saesneg hefyd roedd rhai plant ddim yn ymateb o gwbl.

Wnaeth yr athro newid diweddglo'r wers ar ol i ddisgybl dangos ei bod yn deall y wers yn dda, wrth newid y wers wnaeth yr athro ymestyn dysgu'r plant.

Atodiad 4

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 25/09/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Cyfraniad disgybl

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Roedd gweld athro yn newid diwedd glo'r wers oherwydd cyfraniad disgybl yn diddorol iawn. Wrth wrando ar cyfrania y plenty gwelodd yr athro fod y disgybl yn gwybod mwy na beth oedd yn feddwl.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Newidodd yr athro diwedd glo'r wers er mwyn herio'r disgyblion. Gwelodd yr athro fod gan y disgyblion fwy o gwybodaeth felly newidodd y wers. Wnaeth yr athro addasu'r wers er mwyn ymestyn y disgyblion ac er mwyn ymestyn y her.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Byddwn i'n cadw asesu trwy gydol y wers er mwyn galluogi fy mhod i'n addasu'r gwersi i herio'r plant. Efallai byddai modd asesu'n unigol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd y safon sylfaenol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Byddwn i'n sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd y lefel dylent gyrraedd cyn ymestyn neu newid tasgau. Byddwn yn cadw asesu trwy gydol y wersi er mwyn darganfod lle allent ymestyn y her.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 5**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y digwyddiad dysgu: Defnyddio technegau celf i darlunio person yn eistedd lawr mewn gwahanol ffurf.
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) Mae'r disgyblion yn dawel ac yn canolbwyntio. Mae'r athro yn rhoi cymorth a clôd yn gyson, plant yn ymateb i'r clôd.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) Defnyddio technegau maent wedi defnyddio o'r blaen er mwyn darlunio, creu llun o person yn eistedd lawr.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Plant yn defnyddio'r technegau maent yn gyfarwydd gyda ac yn gwrandao ar cymorth yr athro,
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) Pob plentyn yn darlunio ac yn ceisio creu llun.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? Athro yn cylchu'r dosbarth ac yn asesu'n unigol, hefyd rhoddodd gwaith cartref er mwyn asesu elfen ysgrifenedig y disgyblion.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Wnaeth yr athro gadael i'r ddisgyblion eistedd unrhyw le yn y dosbarth, felly roeddent yn gallu eistedd yn cyfwrddus ac yn hapus.

Atodiad 6

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Plant yn cael rhyddid i eistedd unrhyw le yn y dosbarth

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Dwi'n teimlo ges i brofiad dda iawn wrth ymweld â dosbarth celf lle roedd gan y ddisgyblion rhyddid i eistedd unrhyw le yn y dosbarth er mwyn iddynt gweithio yn y ffordd orau.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Roedd pob disgybl yn hapus ac yn cyffwrddus. Roedd y disgyblion yn dawel ac yn gweithgar gan fod ganddyn nhw'r rhyddid i gwneud beth oeddent eisiau gwneud. Roedd gwaith y plant yn diddorol i gweld gan fod pob disgybl gyda safbwynt gwahanol.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Byddwn i'n defnyddio'r strategaeth yma o rhoi rhyddid i'r plant eistedd lle maent yn teimlo'n fwyaf gyffwrddus. Efallai byddai hyn yn atal plant rhag gweithio gan fod ganddyn y rhyddid i eistedd ar bwys ei ffrindiau.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Byddwn i'n ceisio rhoi rhyddid i'r dosbarth ond rhoi rhywfaint o rhwystr ar ble gall y ddisgyblion eistedd.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 7**NODIADAU ARSYLWI / MAES**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y digwyddiad dysgu: Gweithio tuag at gwneud arbrosiad golau a chysgod.
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) Mae'r plant yn ateb cwestiynau ac yn rhoi llaw i fyny i ateb.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) Wrth gofyn cwestiynau mae'r athro yn arwain y dysgu. Hefyd wnaeth yr athro modelu'r arbrawf gyda arweiniad y ddisgyblion cyn iddyn nhw gwneud yr arbrawf mewn grwpiau.
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Ydyn, mae'r disgyblion yn gweithio, yn gwybod pa offer i ddefnyddio ac yn helpu ei gilydd.
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) Mae'r athro yn gofyn i'r ddisgyblion beth maen't yn feddwl a pam. Mae'r plant yn dysgu trwy gwneud.
Asesu Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu? Mae'r athro yn cwestiynu ac yn cylchu'r dosbarth.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Pllant yn cyd-weithio wrth gwneud yr arbrawf. Hefyd roedd yr athro yn gadael i'r ddisgyblion trafod mewn grwpiau cyn rhoi'r ateb cywir iddyn nhw.

Atodiad 8

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Dysgu trwy gwneud

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Dwi'n teimlo ges i profiad da wrth arsylwi ar ddosbarth â oedd yn yn dysgu trwy gwneud.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"</i> <i>"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"</i>	Roedd y plant yn hapus ac yn prysur. Roeddent yn cael hwyl trwy dysgu sut i wneud yr arbrawf. Roeddent yn gweithio mewn grwpiau ac felly yn rhannu'r gwaith ac yn addysgu o'i gilydd.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Roedd y fath yma o addysgu yn diddorol i weld gan fod y disgyblion yn mwynhau gwneud pethau yn annibynnol yn lle gwrando neu gwylio athro yn gwneud arbrawf. Un elfen siomedig oedd y disgyblion yn siariad saesneg efo'i gilydd gan fod yr athro ddim yn gallu cadw llygaid ar pawb.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	Er mwyn gwella'r siariad saesneg byddwn i'n ceisio cylchu'r ystafell ddosbarth yn fwy gyson er mwyn atal saesneg yn y dosbarth. Byddaf yn defnyddio'r techneg o dysgu trwy gwneud yn fwy aml mewn gwersi.
Y profiad newydd / Transformed experience	